# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr/Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG** | | **SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS JOINT-COMMITTEE** |
| **DYDD GWENER, 5 GORFFENNAF, 2013 am 10:30 y bore** | | **FRIDAY, 5 JULY, 2013 AT 10:30 a.m.** |
| **YSTAFELL GLYDER FAWR, SWYDDFEYDD PENRALLT, CAERNARFON** | | **YSTAFELL GLYDER FAWR, SWYDDFEYDD PENRALLT, CAERNARFON** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**<u>AELODAU/MEMBERS</u>**

Cynghorwyr/Councillors:

**<u>CYNGOR GWYNEDD COUNCIL</u>**

Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Beth Lawton, Peter Read, Caerwyn Roberts, Gareth Thomas, Eirwyn Williams

**<u>CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL</u>**

Jeff Evans, D.R.Hughes, T.Lloyd Hughes, Llinos M.Huws, G.O.Jones, R.Meirion Jones, R.Llewelyn Jones.

**<u>YR EGLWYS/THE CHURCH</u>**

Y Parch./Rev. Lloyd Jones (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales)
Gwag/Vacant) Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)
Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion/Free Churches)

**<u>AELOD DI-BLEIDLAIS/NON-VOTING MEMBER</u>**

Cynghorydd Ieuan Williams (Aleod Portffolio Addysg Ynys Môn/Isle of Anglesey Portfolio Member for Education)

# R H A G L E N

1 **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd i'r Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn nesaf.

(Mae Cyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor yn dweud y penodir aelod o un awdurdod yn Gadeirydd ac aelod o'r awdurdod arall yn Is-Gadeirydd ac i'r gwrthwyneb y tymor canlynol fel bydd y gadeiryddiaeth a'r is-gadeiryddiaeth yn newid rhwng y ddau awdurdod bob yn ail.

*(Roedd y Cadeirydd hyd at Fai, 2013 wedi cael ei ethol am gyfnod o ddwy flynedd ym mis Hydref, 2012 o blith cynrychiolwyr etholedig Cyngor Sir Ynys Môn ar y Cyd-Bwyllgor. Etholwyd yr Is-Gadeirydd ar yr un pryd o blith cynrychiolwyr etholedig Cyngor Gwynedd ar y Cyd-Bwyllgor).*

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **Y CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG - CYFLWYNIAD I AELODAU NEWYDD** (Tudalennau 1 - 12)

Derbyn cyflwyniad ar rôl a swyddogaeth y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig.

4 **COFNODION CYFARFOD 16 HYDREF, 2012** (Tudalennau 13 - 24)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Cyd-Bwyllgor a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod –

- 16 Hydref, 2012
- 29 Ionawr, 2013 (cyfarfod arbennig)

5 **UNED DDARPARU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG** (Tudalennau 25 - 30)

Cyflwyno adroddiad ynglyn â gwaith yr Uned Ddarparu AAA yn ystod tymor yr Hydref, 2012 a thymor y Gwanwyn, 2013.

6 **CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH, 2013** (Tudalennau 31 - 56)

- Cyflwyno cyfrifon terfynol y Cyd-Bwyllgor AAA am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth, 2013.

- Cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor AAA.

## 7 <u>CYFARFODYDD Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN I DDOD</u>

10:30 y bore, 20 Medi, 2013 yn Llangefni (cyfarfod arbennig i dderbyn cyfrifon y Cyd-Bwyllgor)

10:30 y bore, 22 Tachwedd, 2013 yn Llangefni (cyfarfod cyffredin)

10:30 y bore, 14 Mawrth, 2014 yng Nghaernarfon (cyfarfod cyffredin)

This page is intentionally left blank

# Cyd-Bwyllgor Angenion Addysgol Arbennig

# Special Educational Needs Joint Committee

- Penderfyniad Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn 1996 i barhau i gyflawni'r rhan helaethaf o'u dyletswyddau ym maes Anhenion Addysgol Arbennig ar y cyd.

- The Isle of Anglesey County Council and Gwynedd Council decided in 1996 to continue to carry out most of their duties in the field of Special Educational Needs collaboratively.

- Aelodaeth gyfartal o aelodau etholedig y ddau Gyngor.
- Equal membership of elected members from each Council.
- Cadeirydd o un Cyngor ac is-gadeirydd o'r llall
- Chair from one Council and the vice-chair from the other.

- Gwasanaeth cyllidol y Cyd-Bwyllgor yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd.
- Finance services for the Joint Committee provided by Gwynedd Council.

- Gwasanaethau Personel a Chyfreithiol gan Gyngor Sir Ynys Môn.
- Personel and Legal services provided by the Isle of Anglesey County Council.

- Cynhelir cyfarfodydd dair gwaith yn y flwyddyn, yng Nghaernarfon a Llangefni am yn ail.

- Meetings are held three times a year, in Caernarfon and Llangefni alternatively.

- Prif ddyletswyddau Statudol  y ddau Gyngor yn y maes yw:
- The main responsibilities of the two Councils in this field are:
- Datblygu a gweithredu strategaeth AAA gynhwysol.
- To develop and implement an inclusive SEN strategy.

- Cynllunio darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion gydag AAA – mewn ysgolion prif-lif fel rheol ond weithiau, a phan fo’r rhieni’n dymuno hynny, mewn ysgol arbennig.
- To plan provision to meet the needs of pupils who have SEN – usually in main stream schools but sometimes, and when the parents so wish, in special schools.

- Rhoi sylw i'r Cod Ymarfer AAA Cymru, 2002.
- Have regard to the SEN Code of Practice for Wales, 2002.

- Gwneud yn siwr bod anghenion addysgol arbennig yn cael eu canfod a'u hasesu'n fuan fel bo'r disgybl yn derbyn ymyrraeth briodol yn gynnar.

- Ensure that special educational needs are identified and assessed early so that the pupil receives suitable early intervention.

- Rheoli’r drefn asesu statudol, a llunio a monitro datganiadau.
- Manage the statutory assessment procedure, and produce and monitor statements.

9

- Gwasanaethau yr Uned Ddarparu:
- Services of the Provider Unit:

- Gwasanaeth seicoleg Addysg/ Education psychology service.
- Athrawon Arbenigol/ Specialist teachers.
- Adran weinyddol – rheoli’r drefn asesu a darparu data/ Administrative department to manage the assessment procedures and provide data.

- Gweithredir y trefniadau trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth.
- Arrangements are implemented through a Service Level Agreement.
- Cyswllt gweithredol o ddydd i ddydd efo’r ddau Gyngor  trwy’r Swyddogion Cleient.
- The day to day operational contact with the two Councils is through the Client Officers.

- Adrodd yn dymhorol ar waith yr Uned i'r Cyd Bwyllgor AAA.
- Termly reporting on the work of the Provider Unit to the SEN Joint Commitee.
- Hyn yn caniatau craffu ar waith yr Uned Ddarparu a sicrhau defnydd darbodus o adnoddau.
- This allows scrutiny of the Provider Unit's work and ensures the careful use of resources.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd R.Dylan Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Caerwyn Roberts (Cyngor Gwynedd) (Is-Gadeirydd)<br><br>**Cyngor Gwynedd**<br><br>Cynghorwyr Elin Walker Jones, Beth Lawton, Peter Read, Gareth Thomas, Eirwyn Williams<br><br>**Cyngor Sir Ynys Môn**<br><br>Cynghorwyr Mrs Fflur Hughes, Gwilym O.Jones, Eric Roberts, P.S.Rogers |
| **WRTH LAW**: | Prif Seicolegydd Addysg (Mr Gareth Payne)<br>Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd (Mr Dewi R.Jones)<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn (Dr Gwynne Jones)<br>Swyddog Addysg Anghenion Arbennig Ynys Môn (Mrs Mair Read)<br>Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd (Mrs Kathy Bell)<br>Swyddog Pwyllgor (Ann Holmes) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd); Cynghorwyr G.O.Parry, MBE , Clive McGregor (Cyngor Sir Ynys Môn) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Mr Trebor Roberts (Prif Weithredwr Dros Dro Cwmni Cynnal) |

---

DRAFT

**1. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd R.Dylan Jones o Gyngor Sir Ynys Môn yn Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor am y cyfnod dwy flynedd nesaf.

Diolchodd y Cynghorydd R.Dylan Jones i'w gyd- aelodau am eu hymddiriedaeth ynddo ac fe fynegodd ei werthfawrogiad o waith a chyfraniad y Cynghorydd Selwyn Griffiths o Gyngor Gwynedd fel ei ragflaenydd yn y Gadair. Estynnodd groeso i bob aelod oedd yn newydd i'r Cyd-Bwyllgor. Dygwyd i sylw'r Cyd-Bwyllgor gan aelodau Gwynedd bod y Cynghorydd Selwyn Griffiths wedi bod trwy gyfnod o anhwylder yn ddiweddar a'i fod wedi treulio amser yn yr ysbyty. Ar ran holl aelodau'r Cyd-Bwyllgor fe ddymunodd y Cadeirydd y gorau i'r Cynghorydd Selwyn Griffiths am adferiad iechyd buan iawn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G.O.Jones at brofedigaeth a ddaeth i ran y Cynghorydd R.Dylan Jones yn ddiweddar trwy golled ei fam. Fe gymdymdeimlodd yn ddwys â'r Cynghorydd Jones a'i deulu yn eu profedigaeth ac fe ategwyd y cydymdeimladau hynny gan weddill aelodau'r Cyd-Bwyllgor.

**2. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Caerwyn Roberts o Gyngor Gywnedd yn Is-Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor am y cyfnod dwy flynedd nesaf.

**3. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Mawrth, 2012 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

Yn codi –

Adroddodd Swyddog Addysg Arbennig Ynys Môn bod y Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion y mynegwyd pryder ynghylch ei gynaliadwyaeth hir dymor yn y cyfarfod ym mis Mawrth wedi bod trwy ail-strwythuriad a bod y tîm ar hyn o bryd yn gyflawn gyda 5.5 cwnselydd yn gweithio yn ystod y tymor yn y sector uwchradd.

## 5. Y CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Rhoddodd Prif Weithredwr Cwmni Cynnal gyflwyniad gweledol i'r Aelodau ynglyn â swyddogaethau'r Cyd-Bwyllgor a'r Uned Ddarparu Anghenion Addysgol Arbennig a rôl aelodau'r Cyd-Bwyllgor wedyn wrth ddal yr Uned Ddarparu i gyfrif. Yn ei gyflwyniad fe gyfeiriodd y swyddog at y materion a nodir isod –

- Cefndir sefydlu'r Cyd-Bwyllgor yn 1996 a'r ffordd y caiff y swyddogaethau ynghlwm wrth ei weinyddiaeth eu didoli rhwng y ddwy sir.
- Prif ddyletswyddau'r ddau Gyngor ym maes Anghenion Addysgol Arbennig, sef -
    - datblygu a gweithredu strategaeth AAA gynhwysol
    - cynllunio darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion gydag AAA mewn ysgolion prif-lif, neu lle bo'n briodol a phan fo rhieni yn dymuno hynny, mewn ysgol arbennig
    - Rhoi sylw i'r Côd Ymarfer AAA Cymru, 2002
    - Sicrhau bod anghenion addysgol arbennig yn cael eu hadnabod a'u hasesu'n fuan fel bo'r disgybl yn derbyn ymyrraeth briodol yn gynnar
    - Rheoli'r drefn asesu statudol a llunio a monitro datganiadau
- Gwasanaethau'r Uned Ddarparu yn cwmpasu'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg; y Gwasanaeth Athrawon Arbenigol a'r Adain Weinyddol sy'n rheoli'r drefn asesu a chynhyrchu data.
- Mai trwy Cytundeb Lefel Gwasanaeth y gweithredir y trefniadau ac fe gynhelir y cyswllt gweithredol o ddydd i ddydd gyda'r ddau Gyngor trwy'r swyddogion cleient.
- Adroddir yn dymhorol ar waith yr Uned Ddarparu i'r Cyd-Bwyllgor i bwrpasau craffu ac i sicrhau defnydd darbodus o adnoddau.

Cafwyd trafodaeth ar gynnwys y cyflwyniad ac fe ofynnwyd sawl cwestiwn gan yr Aelodau. Roedd y prif destunau trafod yn cynnwys y canlynol –

- Sut y sicrheir bod anghenion plant y mae eu rhieni yn dewis eu haddysgu gartref yn cael eu diwallu ac yn enwedig os oes gan y plentyn anghenion addysgol arbennig.
- Y rhagolygon ar gyfer parhad y trefniant y mae'r Cyd-Bwyllgor yn seiliedig arno lle darperir gwasanaethau yn y maes hwn ar y cyd yng ngholeuni'r pwyslais cynyddol ar ddatganoli cyllid i ysgolion a chyd-weithio ar sail ehangach rhanbarthol.
- Rhaniad gwasanaethau'r Uned Ddarparu rhwng y ddwy sir.
- Y ddarpariaeth gogyfer plant gydag awtistiaeth ac a oes yna gyfeiriad a/neu strategaeth benodol ar ei chyfer.

Adroddodd Pennaeth Gwasanaeth Addysg Gwynedd bydd cyfeiriad y gwaith yng Ngwynedd yn gweld sefydlu Canolfan Hafod Lon fel canolfan ragoriaeth gogyfer y sir gyfan. Fel rhan o ddarpariaethau'r ganolfan bydd yn cynnig cefnogaeth briodol i blant awtistig ac yn cynnig darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg; gwelir y datblygiad hwn fel un sy'n gosod cyfeiriad arloesol yn y maes. Hyderir fel rhan o ddatblygiad Hafod Lon y gwelir hefyd sefydlu adain breswyl. Dywedodd Swyddog Addysg Arbennig Ynys Môn bod dwy athrawes o fewn y Gwasanaeth Athrawon Arbenigol yn ymwneud ag awtistiaeth ac anawsterau cyfathrebu fel eu prif feysydd arbenigedd a'r ddwy

DRAFT

athrawes sy'n llunio strategaeth addysgol sydd wedyn yn bwydo i mewn i'r strategaeth awtistiaeth. Maent hefyd yn gweitho ochr yn ochr gydag ysgolion arbennig o safbwynt datblygu'r ddarpariaeth ym maes awtistiaeth.

**6. YR UNED DDARPARU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG**

6.1 Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu gwaith yr Uned Ddarparu yn ystod tymor y Gwanwyn, 2012.

Cyfeiriodd y Prif Seicolegydd Addysg at y materion canlynol –

- Newidiadau staffio. Yng nghyswllt sôn am y Cydlynydd 3* fe ymhelaethodd y Swyddog ar y gyfundrefn 3* a beth oedd yn ei olygu.
- Gweithredu dydd i ddydd y Gwasanaeth Athrawon Arbenigol o ran nifer yr ymweliadau ysgol a gynhaliwyd; yr arweiniad a ddarparwyd ac adroddiadau ac adolygiadau a gynhyrchwyd ar draws y meysydd arbenigol.
- Y cyfarfodydd a fynchwyd yn cynnwys rhai lleol, rhai aml-asiantaethol a chyfarfodydd yn gysylltiedig â rhwydweithiau proffesiynol cenedlaethol a rhanbarthol ynghyd â'r cyflwyniadau a sesiynau hyfforddi y bu staff y gwasanaeth yn ymwneud â hwy fel cyfranogwyr.
- Cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.
- Sefyllfa'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn cwmpasu newidiadau staff a gweithgareddau'r Gwasanaeth yn y cyfnod.
- Data yn adlewyrchu llwyth gwaith y Cyd-Bwyllgor ym maes prosesu asesiadau statudol a llunio datganiadau dros y cyfnod pedair blynedd diwethaf. Dengys y ffigurau er bod nifer y datganiadau terfynol a gyhoeddwyd yn 2011 wedi gostwng yn y ddwy sir mae nifer yr asesiadau statudol wedi cynyddu yn sylweddol yng Ngwynedd (57 ym Mehefin 2012 o gymharu â 18 ym Mehefin 2011), ond maent wedi parhau yn sefydlog ym Môn (21 ym Mehefin 2012 a 17 ym Mehefin 2011).
- Gwybodaeth am nifer y datganiadau terfynol a gyhoeddwyd o fewn yr amserlen statudol o 26 wythnos yn 2011 a'r perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol. Yng Ngwynedd mae nifer y datganiadau a gyhoeddwyd wedi gostwng o 75 yn 2010 i 44 yn 2011 ac mae'r ganran a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos (gan gynnwys eithriadau) wedi cynyddu o 86.7% i 90.9%.Gwnaed ymdrech arbennig o fewn yr  Uned Ddarparu i wella ar y perfformiad a gwelwyd gostyngiad yn yr amser a gymerir i dderbyn cyngor meddygol. Ym Môn mae nifer y datganiadau a gyhoeddwyd wedi gostwng o 41 yn 2010 i 27 yn 2011 ac mae'r ganran a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos (gan gynnwys eithriadau) wedi cynyddu'n sylweddol o 43.9% i 70.4%. Unwaith eto gwnaethpwyd ymdrech o fewn yr Uned Ddarparu i wella ar y perfformiad.

Diolchwyd i'r Swyddog am yr adroddiad a'r cyflwyniad ac fe godwyd y materion a ganlyn yn y drafodaeth ar gynnwys yr adroddiad –

- Maint gwariant y pen ar blant ag anghenion addysgol arbennig yn neilltuol ym Môn.
- Cynhyrchu dogfennau meini prawf newydd a'r posibilrwydd y byddai hynny yn gosod rhagor o gyfrifoldeb ar yr ysgol ac ar athrawon.
- Natur ac ehangder y cyd-weithio gydag asiantaethau eraill megis Barnardos.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Ynys Môn bod gwariant y pen ar blant ag anghenion addysgol arbennig ym Môn yn uchel, a bod hyn i'w briodoli yn rhannol i gynnydd yn y gofyn yn sgîl adnabod anghenion plant yn gynt a hefyd oherwydd bod unigolion yn symud i mewn i'r ardal a hwythau yn aml gydag anghenion arbennig. At hynny, mae nifer o ysgolion llai eu maint ym Môn ac fe ddarperir gogyfer anghenion addysgol arbennig ym mhob ysgol sy'n golygu bod angen cymorthyddion ym mhob ysgol sy'n golygu wedyn bod y gwariant yn uwch. Mae'r model ym Môn wedi'i sylfaenu ar ddarpau cefnogaeth i blant yn eu cymunedau. O safbwynt y goblygiadau i ysgolion o ddiwygio'r meini prawf, dywedodd Swyddog Addysg Anghenion Arbennig Ynys Môn mai cyfrifoldeb ysgol yw addysgu pob plentyn a dderbynnir i'r ysgol ac mai cyfrifoldeb yr awdurdodau trwy wasanaethau'r Cyd-Bwyllgor yw cynnig arweiniad a chymorth i'r ysgolion gyflawni eu gwaith yn hyn o beth.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth.**

DRAFT

6.2 Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu gwaith yr Uned Ddarparu yn ystod tymor yr Haf, 2012.

Dywedodd y Prif Seicolegydd Addysg bod yr adroddiad ar weithgareddau tymor yr Haf yn dilyn yr un patrwm â'r adroddiad ynglyn â thymor y Gwanwyn o ran yr ystyriaethau a'r materion mae'n cyfeirio atynt. Fe ddygodd y Swyddog sylw penodol yr Aelodau at ymarferiad a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg lle mae pob seicolegydd yn dyfarnu pa mor effeithiol yw pob ysgol mewn nifer o agweddau o'u gwaith gyda'r gwasanaeth gan ddefnyddio system goleuadau traffig i wneud hynny. Defnyddiwyd 5 lliw (glas, gwyrdd, melyn, oren a choch lle mae'r 3 lliw cyntaf yw'r rhai sy'n dynodi perfformiad cadarnhaol) i roi barn ar agweddau megis pa mor dda mae ysgol yn paratoi gwaith arbenigol i helpu disgybl, asesu lefel cyraeddiadau a chynnig syniadau i wella'r sefyllfa a.y.y.b. Dyfarnwyd bod 98% o'r ysgolion yn y categori glas, gwyrdd neu felyn.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth.**

## 7. YMGYNGHORIAD: "YMLAEN MEWN PARTNERIAETH DROS BLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION YCHWANEGOL"

Rhoddodd Swyddog Anghenion Addysgol Arbennig Ynys Môn gyflwyniad gweledol i'r Aelodau yn crynhoi cynnwys y ddogfen ymgynghori uchod sy'n amlinellu'r cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith ddeddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi'i sylfaenu arni. Cyfeiriodd y Swyddog at y prif ystyriaethau ynghlwm wrth gynigion y ddogfen ymgynghori fel a ganlyn –

- Y cyd-destun yn cynnwys y ffaith bod deddfwriaeth AAA bellach dros 30 mlwydd oed.
- Yn 2007, fe nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei fwriad i ddeddfu ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd hyn yn dilyn adolygiad ac adroddiad AAA mewn 3 rhan a gynhaliwyd gan yr hen Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Sefydlwyd cynlluniau peilot yn cynnwys pedwar cynllun peilot yn ymwneud â sicrhau ansawdd; anghenion dwys a chymhleth, rôl y cydlynydd AAA ac anghenion llai dwys.
- Bwriedir y newidiadau fel rhai sy'n esblygol yn hytrach na rhai sy'n chwyldroadol a bod yna gyswllt rhwng y cynigion â'r agenda gwella ysgolion a'r cynigion hynny sydd yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru).
- Yn ôl datganiad y Gweinidog Addysg amcan y cynigion yw sicrhau bod y gyfundrefn yng Nghymru yn fwy cynhwysol a bod yna wella canlyniadau i'r plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru.
- Mae'r diwygiadau arfaethedig yn cynnwys y canlynol:

  - Cyflwyno'r cysyniad o Anghenion Ychwanegol fydd yn disodli'r hyn sydd wedi cael eu hadnabod fel Anghenion Addysgol Arbennig gyda golwg ar sefydlu trefn sy'n seiliedig ar bartneriaeth llawn rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y drefn bresennol lle'r ystyrir mai gwasanaethau addysg yw'r corff arweiniol yn dod i ben.
  - Cynllunio integredig - er mwyn symleiddio'r system bresennol bydd prosesau asesu a chynllunio integredig yn cael eu cyflwyno. Bydd Cynllun Datblygu Unigol (CDU) sydd yn dwyn ynghyd gyfraniadau'r holl asiantaethau perthnasol yn cael ei lunio ar gyfer y plentyn /person ifanc fydd yn disodli neu'n integreiddio pob cynllun unigol arall ar gyfer yr unigolyn.Bydd y broses yn cael ei chyd-gysylltu gan berson a ddynodir yn Gyd-Gydsylltydd Cymorth a bydd adnodd ar y wê yn cael ei datblygu ar gyfer y CDU fel y gall pob asiantaeth berthnasol gyfrannu ati.
  - Gwaith aml-asiantaethol – bydd paneli cymorth aml-asiantaethol yn cael eu sefydlu i asesu a chytuno ar y pecyn o wasanaethau sydd i'w ddarparu ar gyfer plant gyda'r anghenion mwyaf. Bydd anogaeth i weithio mewn consortia rhanbarthol.
  - Ystod oedran estynedig – ymestyn yr oedran o enedigaeth i 25 mlwydd oed yn achos plant ag anghenion difrifol a/neu chymhleth. Dylid mabwysiadu model Cymorth Cynnar i blant dan 5 oed. Bydd ymestyn yr oedran y mae'r CDU yn berthnasol iddo i 25 mlwydd oed yn gwella'r trefniadau trosglwyddo boed y trosglwyddiad i addysg bellach, addysg uwch neu wasanaethau i oedolion.
  - Ymdrin â phryderon ac anghytundeb – bydd y pwyslais yn newid o ymdrin ag anghydfodau a chwynion i strategaeth o atal pryderon ac anghytundebau a'u datrys yn gynnar. Y bwriad yw cynnwys rhieni a gofalwyr drwy gydol y broses.
  - Apelio i Dribiwnlys – bydd hawl apelio i Dribiwnlys yn parhau ond bydd gofyn i unigolion fynd trwy broses o ddatrys anghydfodau yn y lle cyntaf. Mae ymestyn cylch gwaith y tribiwnlys AAA

DRAFT

i gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ystyried ac fe roddir hawl apêl i'r plentyn neu'r person ifanc yn ogystal.

- Gwasanaethau Partneriaeth Teuluoedd – cynigir ymestyn y Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni i gynnwys plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol a'u rhieni/gofalwyr.
- Sicrhau Ansawdd – bydd yna osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno'r Côd Ymarfer Anghenion Ychwanegol a bydd system fapio darpariaeth sy'n olrhain canlyniadau ar gyfer dysgwyr, adnoddau a ddarparwyd ac adborth rhieni a dysgwyr yn cael ei chyflwyno.
- Lleoliadau arbenigol ôl-16 – cynnig mai awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am asesu'r angen am ddarpariaeth addysg bellach arbenigol ac am sicrhau'r ddarpariaeth honno a'i hariannu.

Dywedodd Swyddog Anghenion Addysgol Arbennig Ynys Môn bod y ddogfen ymgynghori llawn ar gael ar y wê a byddai'n darparu ymateb i'r ddogfen ar ran Ynys Môn tra byddai'r Uwch Reolwr Addysg yng Ngwynedd yn darparu ymateb ar ran Gwynedd. Ymgynghorwyd eisoes gyda phartneriaid ac fe wahoddwyd ysgolion i gyflwyno sylwadau yn ogystal. Bu i fudiad SNAP gynnal ymgynghoriad gyda rhieni. Dywedodd bod croeso hefyd i aelodau'r Cyd-Bwyllgor gyflwyno unrhyw sylwadau naill ai trwyddi hi neu drwy uwch Reolwr Addysg Gwynedd. Y bwriad yn y cyfarfod hwn oedd codi ymwybyddiaeth y Cyd-Bwyllgor o'r newidiadau arfaethedig yn y maes.

Cydnabu'r Aelodau bod yna agweddau i'r newidiadau deddfwriaethol ag iddynt oblygiadau pell-cyrhaeddol ac yn y drafodaeth ar y mater fe godwyd y pwyntiau canlynol –

- Eu bod yn bryderus iawn ynglyn â sut yr oedd yr awdurdodau am gyllido'r ddarpariaeth gogyfer addysg bellach arbenigol ôl-16 yn enwedig mewn hinsawdd lle mae cyllidebau'r awdurdodau dan gymaint o bwysau.
- Nad oedd y ddogfen yn cynnig arweiniad ynglyn â darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Eu bod yn bryderus hefyd y gall symud i gyfundrefn holl gwmpasog anghenion ychwanegol olygu colli golwg o'r dimensiwn addysgol o fewn anghenion arbennig.
- Ei bod yn bwysig eu bod hwy fel aelodau'r Cyd-Bwyllgor yn lledaenu'r neges am y newidiadau hyn sydd ar y gweill a'u goblygiadau.

Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, dywedodd y Swyddogion nad yw'r ddogfen ymgynghori yn rhoi arweiniad ymarferol ynglyn â sut y byddir yn symud i'r drefn newydd. Fodd bynnag, disgwylir bydd y Côd Ymarfer newydd yn ymhelaethu ar y gofynion a bydd cyfle i ymgynghori ar gynnwys y Côd. O ran y cynnig i osod y cyfrifoldeb am ariannu lleoliadau addysg arbenigol ôl-16 ar yr awdurdodau, nodwyd bod yr arian sydd ar gael gogyfer y maes addysg ôl-16 eisoes yn dynn, a bydd canfod yr adnoddau ar gyfer diwallu'r gofyn am ddarpariaeth lleoliadau arbenigol ôl-16 hefyd yn creu sialens o'r fwyaf i awdurdodau lleol. Dywedodd Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd bod y newidiadau ar y llaw arall yn cynnig cyfle i'r awdurdodau adolygu a deall yn well beth maent yn ei wneud o ran y plant hynny sydd angen cymorth ychwanegol yn enwedig o safbwynt materion megis hyffordi'r gweithlu yn y maes ac yn benodol cymorthyddion sy'n cefnogi'r drefn gynhwysol.Yng Ngwynedd mae rhan o'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu trwy adolygiad strategol ac i gyd-fynd gyda'r adolygiad mae yna baratoi am y ddeddfwriaeth newydd yn digwydd. Bydd y pecyn gorffenedig yn un sylweddol oherwydd bod y gyllideb yn y maes gwasanaeth hwn yn un fawr. Un newid arwyddocaol o dan y cynigion yw symud i gyfundrefn o gyd-gyllido rhwng asiantaethau a bydd gofyn i'r dair brif asiantaeth – Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyd-drafod ynglyn ag ariannu darpariaethau.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a diolch i'r Swyddog am y cyflwyniad.**

## 8. MATERION ARIANNOL

8.1 Cyflwynwyd adroddiad gam Reolowr Cyllid Cyfadran Datblygu Cyngor Gwynedd yn ymgorffori cyfrifon terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn gyllidol 2011/12.

Adroddodd Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd yr adroddwyd i gyfarfod y Cyd-Bwyllgor ym mis Mawrth 2012 mai'r disgwyl oedd y byddai balansau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal ar lefel oddeutu £55,000 erbyn diwedd blywddyn gylldol 2011/12. Mae'r cyfrifon terfynol yn dangos arbedion o £17,267 ar gyllideb 2011/12 a hynny yn bennaf oherwydd incwm ychwanegol. Mae'r prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r cyfrifon terfynol fel a ganlyn –

Tanwariant yn erbyn y gyllideb :

- £17,302 : Seicolegwyr – absenoldeb mamolaeth, swyddi gwag ac arbedion
- £17,313 : Athrawon cynhaliol – trosiant staff ac arbedion
- £ 6,637 : staff gweinyddol – trosiant staff
- £27,539 : incwm yn sylweddol uwch na’r disgwyl (gwaith i Ynys Môn)

Gorwariant yn erbyn y gyllideb :

- £14,891 : Cyd-lynydd Cynllun 3* wedi’i gynllunio trwy ddefnydd o falansau
- £10,334 : costau di-swyddo
- £ 2,144 : post – adroddiadau swmpus ond llai na’r hyn sydd wedi bod yn y gorffennol

Crynhodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg y sefyllfa trwy ddweud bod balansau’r Cyd-Bwyllgor AAA yn £55,028 ar 31 Mawrth, 2011 (sef 4.7% o’r gyllideb). Daw arbedion 2011/12 o £17,267+ â’r cyfanswm balansau ar 31 Mawrth, 2012 i £72,295 (sef 5.9% o’r gyllideb). Y prif faterion oedd staffio a’r newidiadau a fu dros y flwyddyn gyllidol ddiwethaf.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chyfrifon 2011/12.**

8.2 Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn adolygu cyllideb gyfredol 2012/13.

Adroddodd Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd bod yr adroddiad yn adlewyrchu sefyllfa gyfredol cyfrifon y Cyd-Bwyllgor am 2012/13. Dygodd sylw at y ffaith bod trosiant staff wedi arwain at leihad sylweddol mewn costau cyflogi yn unol â’r ffigyrau canlynol –

- -£39,610 : Seicolegwyr – trefniadau cyflenwi a chyfnodau di-dâl
- -£ 2,500 : Athrawon cynhaliol – trefniadau cyflenwi
- -£9,790 : staff gweinyddol, swyddi gwag a threfniadau cyflenwi

  -£51,900 : amcangyfrif arbedion staffio am 2012/13 ar hyn o bryd

- +£14,840 : parhau i gyflogi Cyd-lynydd Cynllun 3* o falansau/arbedion

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg na ragwelir gwahaniaethau mawr yng nghyllideb y Cyd-Bwyllgor erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Os gwireddir yr arbedion staffio yn eu cyfanrwydd bydd balansau’r Cyd-Bwyllgor felly yn sefyll oddeutu £109,000 erbyn 31 Mawrth, 2013.Y prif fater sy’n deillio o’r wybodaeth hon a’r hyn y mae gofyn ei ystyried yw beth yw’r effaith ar ysgolion; os ydyw’r Cyd-Bwyllgor yn gallu cyflenwi’r ddarpariaeth yn rhatach a oes yna unrhyw sgil effeithiau o safbwynt y cyflenwad.

Dywedodd Prif Weithredwr Cwmni Cynnal bod yr adroddiad yn awgrymu bod sefyllfa gyllidol y Cyd-Bwyllgor yn un iach ond bod gofyn cofio bod y sefyllfa hon wedi’i chyrraedd oherwydd trosiant staff dros y cyfnod 3 blynedd diwethaf ac un o’r rhesymau dros y sefyllfa gyllidol gadarnhaol yw bod y gyfundrefn ar adegau yn ddibynnol ar staff yn cyflenwi dros gyfnodau o absenoldeb ac yn pontio bylchau. Credir bod yna ddarn o waith y byddai’n fuddiol ei wneud i ganfod beth yw’r patrwm trosiant er mwyn sicrhau y cynllunir y lefel ddarpariaeth o fewn hynny.

Bu i’r Uwch Gyfrifydd Addysg wneud y sylw hefyd ynghylch a yw’r adroddiad yn cyfleu’r neges y byddai’r Cyd-Bwyllgor yn dymuno ei chyfleu yn yr ystyr a oes yna risg y bydd yr awdurdodau o weld bod y ddarpariaeth yn cael ei chyflenwi’n rhatach yn edrych ar y maes hwn fel un y gellid clustnodi toriadau pellach ynddo. Pwysleisiodd bod sefyllfa gyllidol y Cyd-Bwyllgor fel y’i cyflwynwyd uchod wedi digwydd oherwydd amgylchiadau unigryw.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan nodi bod yna achos dros ymgymryd â gwaith i edrych ar batrwm trosiant staff dros y blynyddoedd diweddar gyda golwg ar deilwrio lefel y ddarpariaeth o fewn y patrwm hwnnw.**

**9. CYFARFOD NESAF Y CYD-BWYLLGOR**

**Nodwyd mai am 10:30 a.m y bore dydd Gwener, 15 Mawrth, 2013 yn Llangefni y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor.**

DRAFT

Croesawodd Pennaeth Addysg Gwynedd y presenoldeb gadarn a'r gynrychiolaeth deilwng a gafwyd yn y cyfarfod hwn o'r Cyd-Bwyllgor.

**Cynghorydd R.Dylan Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd R.Dylan Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Caerwyn Roberts (Cyngor Gwynedd) (Is-Gadeirydd) |
| | **Cyngor Gwynedd** |
| | Cynghorwyr Elin Walker Jones, Beth Lawton, Peter Read, Eirwyn Williams |
| | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| | Cynghorwyr Mrs Fflur Hughes, G.O.Jones, Clive McGregor, G.O.Parry, MBE, Peter S.Rogers |
| **WRTH LAW**: | Prif Seicolegydd Addysgol (Mr Gareth Payne)<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Ynys Môn (Dr Gwynne Jones)<br>Uwch Reolwr Addysg (Disgyblion a Chynhwysiad) (Mrs Delyth Molyneux) (Cyngor Gwynedd)<br>Uwch Reolwr Addysg (Adnoddau) (Mr Owen Owens) (Cyngor Gwynedd)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr Annwen Hughes (Gwynedd), Eric Roberts (Ynys Môn) Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion) Mr Dewi Jones (Pennaeth Addysg) (Cyngor Gwynedd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Mr Trebor Roberts (Prif Weithredwr Dros Dro Cwmni Cynnal) Mr Elfyn Vaughan Jones (Uwch Ymgynghorydd Cwmni Cynnal) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod arbennig hwn o'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. YMGYSYLLTU PARTHED AROLWG ESTYN 2013

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Cyd-Bwyllgor, Dogfen Grynhoi Hunan Arfarniad Cyngor Gwynedd gogyfer Arolwg Estyn, 2013.

Bu i Uwch Reolwr Addysg (Adnoddau) Cyngor Gwynedd osod y cyd-destun i gyflwyniad y ddogfen grynhoi hunan arfarniad Cyngor Gwynedd trwy ddweud bod Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd yn destun arolygiad gan Estyn yn yr wythnos yn cychwyn 11 Mawrth, 2013. Byddai'r arolygiad yn cymryd arno ffurf cyfweliadau gyda swyddogion ac aelodau perthnasol ynghyd ag ymweliadau gwirio tystiolaeth. Bydd gan Estyn ddiddordeb benodol yn rôl y Cyngor Sir ac ansawdd yr arweinyddiaeth mae'n ei roddi ym maes addysg a hefyd yn y ffordd mae'n ymwneud ac yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig. Dywedodd y Swyddog bod yr Hunan Arfarniad cyflawn wrthi'n cael ei deilwrio ac mai crynodeb o rai o'r prif ddangosyddion ansawdd o dan y tri chwestiwn allweddol, ac yn benodol y dangosydd ansawdd hynny sy'n perthnasu i'r Cyd-Bwyllgor a geir yn yr adroddiad uchod. Atgoffodd yr Uwch Reolwr Addysg (Adnoddau) y Cyd-Bwyllgor am dri chwestiwn allweddol y Fframwaith Arolygu Cyffredin yn ymwneud â deilliannau,y

ddarpariaeth ac arweinyddiaeth, ac fe eglurodd bod yna gyfres o ddangosyddion ansawdd o dan y tri chwestiwn allweddol gyda nifer o is-ddangosyddion wedyn yn cefnogi'r prif ddangosydd. Gall yr arolygwyr ddod i un o bedwar graddfa barn mewn perthynas â'r cwestiynau allweddol sef – rhagorol, da, digonol, anfoddhaol ac mae yna hefyd dau gasgliad crynodol maent yn eu nodi mewn perthynas â pherfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Aeth Mr Elfyn Vaughan Jones, Prif Yngynghorydd Uwchradd Cwmni Cynnal rhagddo wedyn i ymhelaethu ar gynnwys y ddogfen grynhoi yng nghyswllt y prif ddangosyddion ansawdd o dan Cwestiwn Allweddol 1 (Pa mor dda yw'r Deilliannau) yn ymwneud â safonau; safonau grwpiau o ddysgwyr; medrau a'r iaith Gymraeg, ynghyd â'r is-agweddau ansawdd sy'n cefnogi'r prif ddangosydd.Yn achos pob is agwedd cynhwysa'r ddogfen grynhoi hunan arfarniad gyfeiriad at y sylwadau a wnaed yn yr Arolygiad blaenorol yn 2009 lle bo hynny'n berthnasol, tystiolaeth ar gyfer yr arolwg i ddod yn 2013 ynghyd â chamau gweithredu pellach. Eglurodd y Prif Ymgynghorydd Uwchradd y byddai Estyn yn ystyried perfformiad absoliwt yr Awdurdod ac yn gosod hwnnw wedyn mewn trefn hierarchaidd awdurdodau eraill yng Nghymru. Byddai hefyd yn edrych ar berffomiad yn erbyn meincnod ac yn erbyn dangosydd Cinio am Ddim. Mae Gwynedd yn y pedwerydd safle yng nghyswllt Cinio am Ddim sydd yn ei dro yn awgrymu y dylai ei berfformiad gyrraedd y 4ydd safle neu uwch. Rhoddir sylw gan Estyn yn ogystal i berfformiad ysgolion unigol o fewn perfformiad cyffredinol yr Awdurdod ac yn benodol felly yr ysgolion hynny yn y chwarteli cinio am ddim gyda golwg ar adnabod a oes yna ysgolion wedi bod yn y 4ydd chwartel am gyfnod o amser. O ran perfformiad absoliwt mae tystiolaeth yn dangos bod perfformiad Gwynedd yn CA1, CA2, CA3 a CA5 yn dda ac yn gadarn yn CA4. Fodd bynnag, mae perfformiad absoliwt CA4 yn celu pegynnu ymysg ysgolion unigol gyda gormod o fwlch rhwng yr ysgolion gorau a'r ysgolion gwanaf. Mae'r hunan arfarniad yn cydnabod yr arafwch o ran mynd i'r afael â'r rhai o'r ysgolion gwanaf. Oherwydd tanberfformaid rhai ysgolion barn yr hunan arfarniad ar Ddangosydd Ansawdd 1.1 yw Digonol. Bu i'r swyddog wedyn fynd trwy'r un broses eglurhaol ar gyfer bob un o'r is-agweddau eraill ar gyfer y Dangosydd Ansawdd Safonau o dan Cwestiwn Allweddol 1 gan nodi'r dystiolaeth a'r farn mae'r dystioaleth yn arwain yr Awdurdod ato yn yr hunan arfarniad.

Dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg (Adnoddau) mai'r pwrpas wrth oedi ar y rhan yma o'r hunan arfarniad yw i amlygu swyddogaeth y Cyd-Bwyllgor fel partner o fewn y darlun ehangach ac i ddanogos ei fod yn bartneriaeth ffrwythlon. Mae hyn yn berthnasol i swyddogaeth yr Awdurdod yng nghyswllt arweinyddiaeth.

Bu i Brif Weithredwr Dros Dro Cynnal gyfeirio'r Aelodau at Gwestiwn Allweddol 2 yn ymwneud â pha mor dda yw'r ddarpariaeth ac i ddangosydd ansawdd 2.2 sef y cymorth a roddir ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant Addysgol ynghyd â'r nifer o is-agweddau o dan y dangosydd hwn fel a ganlyn –

- 2.2.1 Gwaith i fodloni ei rwymedigaeth satudol o ran plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol
- 2.2.2 Gwaith i godi safonau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY
- 2.2.3 Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, gan gynnwys y ddarpariaeth sy'n cael ei chomisiynu a /neu ei darparu gan asiantaethau eraill gyda nhw
- 2.2.4 Gwaith gyda rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY

Ymhelaethodd Prif Weithredwr Dros Dro Cwmni Cynnal ac Uwch Reolwr Addysg (Disgyblion a Chynhwysiad) Cyngor Gwynedd ar y dystiolaeth amlygol oedd yn cefnogi'r farn yr oedd yr Awdurdod wedi dod ato ar gyfer pob un o'r is-agweddau uchod gan gyfeirio at y pwyntiau canlynol –

- Mewn perthynas â 2.2.1, nifer isel yr achosion sydd wedi'u cyfeirio at sylw'r tribiwnlys AAA; sefydlogrwydd y ganran o blant gyda datganiadau a'r ffaith bod canran y plant AAA a addysgir yn y prif lif yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- Mewn perthynas â 2.2.2, bod perfformiad plant a phobl ifanc gydag ADY wedi codi yn y mwyafrif o ddangosyddion; mae ail-strwythuro rhai o'r gwasanaethau cefnogol canolog wedi arwain at godi safonau ac at wella mynediad a chyflawniad dysgwyr ac mae'r newidiadau yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth cynhwysiad a lleoli'r mwyafrif o adnoddau dynol o fewn yr ysgolion uwchradd wedi arwain at leihad sylweddol yn y nifer o waharddiadau penodol eleni.
- Mewn perthynas â 2.2.3, bod canfyddiadau holiadur i benaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd yn dangos mai'r farn yw bod arweiniad cwricwlaidd i ysgolion yn dda neu'n ragorol wrth sefydlu

darpariaethau ac ymyriadau effeithiol ym mhob maes AAA; mae'r Awdurdod yn adnbaod dysgwyr ADY yn fuan trwy bartneriaeth rhwng iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, Derwen (Gwasanaethau Arbenigol Plant), y Cyd-Bwyllgor AAA a'r Awdurdod; bod 73% o gyllid AAA wedi'i ddatganoli i ysgolion Gwynedd, sef y 4ydd uchaf yng Nghymru a gwariant y pen wedi sefydlogi ac yn ogystal, mae'r Awdurdod yn cydweithio'n effeithiol gyda'r gwasanaeth gwella ysgolion, y Cyd-Bwyllgor AAA a phartneriaid eraill megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, SNAP ac elusennau megis Awtism Cymru, NAS ac Afasic i dargedu cynhaliaeth yn briodol.

- Mewn perthynas â 2.2.4 bod yr Awdurdod yn gweithio'n dda gyda rhieni a gofalwyr drwy gynnig cefnogaeth o ansawdd da yn ôl canfyddiadau holiaduron gwasanaethau cefnogol a gwblhawyd gan rieni ynghyd â data a dderbynnir yn flynyddol gan SNAP; comisiynir SNAP i ymgynghori gyda rhieni a grwpiau o randdeiliaid eraill wrth adolygu strwythur gwasanaethau ers rhai blynyddoedd; bod Gwasanaeth Arbenigol Plant Derwen yn cynnwys swyddog cyswllt addysg sy'n ddolen gyswllt gref rwng rhieni /gofalwyr plant; sefydlu'r Tîm Gyda'n Gilydd fel gwasanaeth ataliol rheng flaen i gefnogi teuluoedd bregus; cynnal fforymau i rieni plant ag anhwylderau iaith penodol a gweithdai/clybiau ar y cyd rhwng partneriaid elusennol ac iechyd gogyfer rhieini plant namau synhwyrol; hyrwyddo'r cynllun cefnogi Cynnar.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Addysg (Adnoddau) yn fras at Gwestiwn Allweddol 3 (Arweinyddiaeth) ac at berthnasodd yr adran hon i'r Cyd-Bwyllgor yn yr ystyr bod yna gytundeb ffurfiol gyda'r Cyd-Bwyllgor fel partner a bod y Cyd-Bwyllgor yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd ar weithgareddau a datblygiadau yn ei faes.

Cafodd Aelodau'r Cyd-Bwyllgor gyfle i gwestiynu'r swyddogion ar gynnwys y ddogfen grynhoi hunan arfarniad ac yn y drafodaeth ddilynol fe godwyd y materion a ganlyn –

- Cyfeiriwyd at y pwyslais cendlaethol a roddir ar godi safonau llythrennedd ac fe ddywedwyd bod angen gwneud yn siwr bod plant ag ADY yn gynwysiedig yn yr ymgyrch i wella cyrhaeddiadau yn y Saesneg a'r Gymraeg.
- Yng nghyswllt cyllid datganoledig i ysgolion gofynnwyd am esboniad o'r camau ar gael i ysgol mewn sefyllfa lle mae ganddi sawl achos plentyn ag ADY mae angen iddi ddiwallu eu hanghenion, ac a fyddai disgwyl i'r ysgol honno ail ddynodi cyllid o un pennawd i'r llall neu wneud cais am gyllid ychwanegol yn ganolog.
- Croesawyd y trwch tystiolaeth oedd yn adlewyrchu maint a safon yr ymdrech i gwrdd ag anghenion plant ag ADY yn briodol ac yn gymesur ac yn enwedig y cynlluniau i geisio mynd i'r afael â phroblemau yn gynnar trwy bartneriaeth – pwysleisiwyd yn neilltuol bwysigrwydd ymyrraeth a chefnogaeth gynnar i ddatblygiad plant ag ADY.
- Yng nghyswllt gwaith rhyng-asaintaethol a thraws Cyngor, cyfeiriwyd at bwysigwyrdd sicrhau bod yna gartrefi a thai addas i deuluoedd yn y cyd-destun bod addasrwydd yr aelwyd yn gallu dylanwadu ar ffyniant plentyn ac ar broblemau cymdeithasol.
- Cyfeiriwyd at effaith bosibl diwygio'r gyfundrefn les ar deuluoedd bregus.
- Cyfeiriwyd yng nghyd-destun y symudiad cynyddol i ddarparu gwasanaethau ar sail rhanbarthol beth oedd y rhagolygon hir dymor ar gyfer partneriaeth y Cyd-Bwyllgor ac a oedd yna bryderon yn ei gylch.
- Cyfeiriwyd at y cysyniad o'r "Tîm gyda'n Gilydd" ac fe ofynnwyd am eglurhad o waith y tîm hwn a'i rôl yn y rhwydwaith o ddarpariaethau ar gyfer plant ag ADY.
- Nodwyd y gallai'r adolygiad strategol mae Cyngor Gwynedd wedi'i gomisiynu mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gael sgîl effaith ar gylch gorchwyl y Cyd-Bwyllgor i'r dyfodol. Cytunwyd trwy drafodaeth y byddai'n ddefnyddiol i aelodau'r Cyd-Bwyllgor dderbyn gwybodaeth am statws yr Adolygiad a diweddariad ynglyn â Cham 1.
- Croesawyd y wybodaeth am y bwriad i godi canolfan ragoriaeth AAA newydd i wasanaethu ardal Dwyfor a Meirion a fyddai hefyd yn cynnig darpariaeth ysbaid dwyieithog arloesol gyda'r potensial hefyd i wasanaethu ardal ehangach.

Bu i'r swyddogion ymateb i'r pwyntiau a godwyd trwy gynnig esboniadau pellach fel bo'n briodol. Ar ddod â'r cyfarfod i ben fe ddiolchodd y Cadeirydd ar ran aelodau'r Cyd-Bwyllgor i'r swyddogion am y ddogfen grynhoi hunan arfarniad a'r cyflwyniadau esboniadol a gafwyd yn ei gylch.

**Penderfynwyd derbyn Dogfen Grynhoi Hunan Arfarniad Cyngor Gwynedd a nodi ei gynnwys.**

DRAFFT

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Aelodau'r  Cyd-Bwyllgor i dderbyn gwybodaeth am Adolygiad Strategol Cyngor Gwynedd o'r maes ADY, ei statws cyfredol a diweddariad o Gam 1.**

**Cynghorydd R.Dylan Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

`

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 5ed Gorffennaf 2013 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA |
| **GWEITHREDU**: | Ystyried yr adroddiad |

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu'r Cyd-Bwyllgor AAA yn ystod Tymor y Hydref 2012, a Thymor y Gwanwyn 2013

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

## Tymor y Hydref 2012

### 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Mae nifer o newidiadau wedi bod yn y trefniadau a'r staffio yn y tîm gweinyddu. Cymerodd yr Uwch Swyddog Gweinyddol secondiad am dair blynedd ym mis Ebrill llynedd, a threfnwyd i ddwy o'r swyddogion clerigol wneud rhai o'i dyletswyddau, a derbyn cydnabyddiaeth ariannol am wneud hynny. Hefyd cymerodd y prif seicolegydd rai o'i dyletswyddau eraill.

Ar ddiwedd tymor yr haf gadawodd y swyddog 3 * ei swydd. Penderfynwyd, yn lle cyflogi rhywun o'r newydd, y byddai'n fwy priodol i rannu'r dyletswyddau 3* rhwng tair o'r swyddogion clerigol, eto gyda chydnabyddiaeth briodol.

Daeth Mr Trebor Roberts i weithio efo'r Cydbwyllgor fel Swyddog Goruchwyliol.

### 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Gan fod teimladau cryf nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i gwrdd ag anghenion y plant i gyd, yn ystod y tymor dechreuwyd trafodaethau am sut y dylid ehangu a datblygu'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Roedd pryder hefyd achos mae nifer o'n athrawon ni'n agosáu at oed ymddeoliad, ac efallai byddai'n anodd cael athrawon Cymraeg cymwys i gymryd eu lle.

Wedi trafodaeth fanwl, daethpwyd at gynllun 'delfrydol' a fyddai'n golygu cynyddu'r tîm presennol o ran athrawon, a chyflogi nifer o gymorthyddion yn ogystal â hyn.

Trafodwyd hyn yn y Grŵp Cyswllt. Er nad oedd modd gwneud y newidiadau i gyd, yr oedd yn bosibl ystyried gwneud rhai ychwanegiadau dros dro o fewn cyllid y Cyd-bwyllgor, a phenderfynwyd mewn egwyddor i wneud hynny.

Ar ddechrau'r tymor roedd un o'r athrawon plant ag anawsterau golwg yn absennol am rai wythnosau efo salwch, ac roedd rhaid i athrawes arall ymgymryd â rhai o'i dyletswyddau. Mae hyn yn arbennig o anodd efo plant ag anawsterau golwg, wrth ystyried yr angen i ddysgu Braille i rai disgyblion, a chynhyrchu defnyddiau yn Braille.

O Hydref 2012 roedd un o'r athrawon plant ag anawsterau clyw'n absennol tymor hir o'i gwaith oherwydd anaf i'w choes.

Mae'r tîm athrawon wedi derbyn hyfforddiant yn cynnwys 'apps' defnyddiol i weithio gyda phlant ag anghenion arbennig, ac wedi bod yn cydgysylltu ag athrawon arbenigol golwg yn Sir Conwy.

## 3.0 **Gwasanaeth Seicoleg Addysgol**

Dechreuodd y tymor gyda'r tîm seicolegwyr yn llawn sef cyfwerth o 8.1 seicolegydd, 10 unigolyn gyda nifer yn gweithio'n rhan amser.

Yn ystod y tymor ymddeolodd un o'r seicolegwyr, oedd yn gweithio'n rhan amser (0.4 amser llawn).

Bu'r seicolegwyr yn helpu Ysgol y Parc, Caergybi, i sefydlu grwp 'Nurture' sef grŵp sydd yn rhoi lot o sylw a phrofiadau cadarnhaol i blant, i helpu gwella eu hymddygiad. Hefyd bu'r seicolegwyr wrthi'n gwneud cyrsiau Webster Stratton mewn rhai ysgolion, eto'n rhywbeth sydd yn helpu gwella ymddygiad. Trefnwyd cwrs mewn Therapi Ffocws ar Ddatrysiad gan rai o'r seicolegwyr ar gyfer gweithwyr Tîm o Amgylch y Teulu Gwynedd.

Dechreuodd y tîm wneud y dyletswyddau roedd yr Ymgynghorydd Anghenion Addysgol Arbennig yn Cynnal yn eu gwneud gynt, sef darparu gwasanaeth ymgynghorol mwy cyffredinol ym maes addysg arbennig i'r ysgolion, yn cynnwys trefnu cyrsiau hyfforddiant.

Fe wnaeth un ysgol drefniadau ychwanegol efo un o'r seicolegwyr i weithio efo'r ysgol yn unigol ar brosiectau.

Tua diwedd y tymor daeth y newyddion bod dau o'n seicolegwyr, oedd yn gweithio 0.5 yr un, ac yn gweithio felly fel un seicolegydd llawn rhyngddyn nhw, wedi cael swyddi newydd.

Daeth canlyniadau'r holiadur i ysgolion i law. Mae'r ymateb i'r holiaduron wedi bod yn gyson ffafriol dros y blynyddoedd, ac mae'r ymateb tro yma hefyd yn dda, gyda'r ateb i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau'n well nag maen nhw wedi bod yn y gorffennol, ac felly'n dangos gwelliant.

| Cwestiwn | Ymateb gynt | Ymateb eleni | Gwell? |
|---|---|---|---|
| Cafwyd gwasanaeth fel roeddent yn disgwyl | 83% - 91% | 97% | Ie |
| Cafwyd gwasanaeth cwrtais a phroffesiynol | 95% - 98% | 100% | Ie |
| Wnaeth y seicolegydd wahaniaeth cadarnhaol | 74% - 83% | 91% | Ie |
| Mae'n hawdd cysylltu â'r seicolegydd ar y ffon | 92% | 97% | Ie |
| Y seicolegydd wedi llwyddo yn y gwaith gytunwyd arno | 89% | 97% | Ie |
| Y seicolegydd yn helpu deall a chrisialu materion | 80% | 100% | Ie |
| Y seicolegydd yn helpu creu cynllun i'r disgybl wella | 74% | 88% | Ie |
| Y seicolegydd yn rhoi cyngor ymarferol i helpu plant | 81% | 97% | Ie |
| Cofnodion y seicolegydd yn glir a hawdd i'w ddeall | 99% | 100% | Ie |
| Y seicolegydd yn ddefnyddiol wrth weithio efo rhieni | 81% | 89% | Ie |
| Yn effeithiol efo disgyblion ag anawsterau ymddygiad | 89% | 80% | Na |
| Yn effeithiol efo disgyblion bregus yn emosiynol | 93% | 85% | Na |
| Yn effeithiol efo disgyblion efo anawsterau cymhleth | 98% | 97% | Na |
| Yn effeithiol efo disgyblion a chyraeddiadau isel | 92% | 92% | Na |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn effeithiol efo disgyblion ag anawsterau cyfathrebu | 89% | 96% | Ie |
| Yn effeithiol lle mae mewnbwn aml-asiantaethol | 92% | 96% | Ie |
| Yn effeithiol yn cefnogi lles emosiynol disgyblion | 86% | 91% | Ie |

Roeddem yn gweithio'n benodol ar y targedau hyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn dda wrth gynnal hyfforddiant i'r ysgolion | 64% | 72% | Ie |
| Yn dda yn rhoi cwnsela therapiwteg | 54% | 66% | Ie |
| Yn cyfrannu at brosiectau ynglŷn â pholisïau | 42% | 79% | Ie |

## 4.0 Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o ddatganiadau terfynol a gyhoeddwyd o fewn yr amserlen statudol o 26 wythnos yn ystod 2012
(Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol).

| **Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Gwynedd 2012** | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 49 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 25 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi | 18 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol | 6 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA) | 0 |
| Dangosydd Perfformiad 15a:<br>O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y flwyddyn, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? (h.y. 40 fel canran o 44) | 87.8% |
| Dangosydd Perfformiad 15b:<br>O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos? (h.y. 4 fel canran o 4) | 100% |

O ystyried cynnydd yn y nifer o ddatganiadau a gyhoeddwyd yn 2012 mae'r canran a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos, gan gynnwys eithriadau, yn adlewyrchiad cadarnhaol o waith cydwybodol yr Uned Ddarparu.

| **Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Ynys Môn 2012** | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 22 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 12 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi | 6 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol | 4 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA) | 0 |
| Dangosydd Perfformiad 15a:<br>O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y flwyddyn, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? (h.y. 19 fel canran o 27) | **81.8%** |

| Dangosydd Perfformiad 15b:<br>O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos? (h.y. 7 fel canran o 7) | 100% |
|---|---|

Ym Môn mae nifer y datganiadau a gyhoeddwyd wedi gostwng ychydig o 27 yn 2011 i 22 yn 2012.  Mae'r canran a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos, gan gynnwys eithriadau, wedi cynyddu'n sylweddol o 70.4% i 81.8%.  Gwnaethpwyd ymdrech arbennig o fewn yr Uned Ddarparu i wella ar y perfformiad.

# Tymor y Gwanwyn 2013

## 1.0 Gweinyddu prosesau asesu ac adolygu

Ym Mawrth, ymddeolodd un o'r swyddogion clerigol, a gwnaed trefniadau i lenwi'r bwlch dros dro.

Roedd y gwaith yn parhau efo'r swyddogion clerigol yn gwneud rhai o ddyletswyddau'r Uwch Swyddog Gweinyddol, a'r prif seicolegydd yn gwneud rhai eraill, a'r swyddogion clerigol hefyd yn cyflawni dyletswyddau 3*.

Erbyn diwedd y tymor, edrychwyd ar hyn eto, gan ystyried rhannu'r gwaith mewn ffordd arall, ond yn y diwedd penderfynwyd parhau efo'r trefniant presennol.  Yr oedd teimlad ei bod yn haws sicrhau bod cymaint o'r dyletswyddau a phosibl yn cael eu cyflawni os yw pobl sydd yn deall y trefniadau arferol yn gwneud y gwaith.

Erbyn diwedd y tymor, hefyd, penodwyd Mr Gwilym Ellis Jones yn Brif weithredwr Cynnal, ac yn Swyddog Goruchwyliol i'r Cyd-bwyllgor.

## 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Roedd yr athrawes plant ag anawsterau clyw yn parhau yn absennol ar ddechrau Tymor y Gwanwyn , ac roedd un arall wedi lleihau ei horiau'n sylweddol i 0.2 o 0.7, ac felly roedd yn dod yn anodd cyflawni'r gwasanaeth i'r lefel arferol.

Parhaodd y trefniadau ynglyn a sicrhau datblygiad i'r gwasanaeth.  Penderfynwyd y dylid clustnodi cyllid ar gyfer cyflogi a hyfforddi athrawon a cymorthyddion newydd.  Roedd hyn yn bosibl fel trefniant dros-dro o fewn cyllid y Cyd-bwyllgor ar y pryd.

Mae anawsterau wedi bod yn y gorffennol gyda chynnig hyfforddiant i athrawon ond dim addewid o waith ar ei ddiwedd, a chytunwyd y dylid cyflogi athrawon cynorthwyol, a darparu hyfforddiant tra eu bod yn gweithio, yn hytrach na dilyn y patrwm blaenorol.

Parhaodd yr athrawon gyda'i gwaith o hyfforddi, er enghraifft yr athrawon plant ag anawsterau golwg yn trefnu i nifer o gymorthyddion hyfforddi i ddefnyddio Braille.

## 3.0 Gwasanaeth seicoleg addysgol

Ychydig ar ôl dechrau'r tymor, roedd y gwasanaeth yn gweithio efo tri seicolegydd yn llai. Roedd rhaid addasu'r lefel o wasanaeth roeddwn ni'n gallu cynnig i'r ysgolion o ganlyniad i hyn.

Hysbysebwyd am seicolegwyr newydd yn eu lle. Gwnaed penodiad i'r swydd 0.4, ond nid oedd modd cyflogi neb i'r swyddi eraill. Tua diwedd y tymor, hefyd, daeth y neges bod seicolegydd arall hefyd yn mynd i fod yn absennol oherwydd rhesymau iechyd.

Oherwydd hyn, mae cynnal y lefel gwasanaeth digonol wedi bod yn her.

Er yr anawsterau hyn, rydym wedi llwyddo i ymweld â phob ysgol lle mae angen, ac wedi ymateb i unrhyw broblemau sydd yn codi. Mae rhai ohonom ni wedi mynychu cyrsiau; yn arbennig, mae un seicolegydd wedi dilyn gwaith ar 'Mindfulness', sydd yn dod ag elfen newydd i'n gwaith therapiwteg, ac rydym yn edrych ymlaen at gael adborth ganddi yn y dyfodol agos.

## 4.0 Gwybodaeth ychwanegol

### Prosesau Statudol:

Mae'r tablau isod yn rhoi braslun o lwyth gwaith y Cydbwyllgor AAA ym maes prosesu asesiadau statudol, llunio datganiadau ayb. Maent yn dangos, yn benodol, y pwysau gwaith sydd ar y cydlynwyr datganiadau (1½ swydd).

| **Nifer o ddatganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd am y tro cyntaf Gwynedd ac Ynys Môn 2008-2012 (h.y. heb gynnwys ailasesiadau / asesiadau statudol nad ydynt yn arwain at gyhoeddi datganiad)** | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn galendr** | **Nifer Gwynedd** | **Nifer Ynys Môn** |
| 2008 | 53 | 34 |
| 2009 | 42 | 38 |
| 2010 | 75 | 41 |
| 2011 | 44 | 27 |
| 2012 | 49 | 22 |

| **Nifer o asesiadau statudol ar y gweill, Gwynedd ac Ynys Môn, Mehefin 2008-2013** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad ciplun** | **Nifer Gwynedd** | **Nifer Ynys Môn** |
| Mehefin 2008 | 34 | 23 |
| Mehefin 2009 | 39 | 38 |
| Mehefin 2010 | 36 | 39 |
| Mehefin 2011 | 18 | 17 |
| Mehefin 2012 | 57 | 21 |
| Mehefin 2013 | 67 | 37 |

**Gweler bod y nifer o asesiadau statudol ar y gweill wedi cynyddu yn sylweddol yng Ngwynedd a Môn.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig<br>(Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd) |
| **DYDDIAD** | 5 Gorffennaf 2013 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2012/13, a<br>• Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

**1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL NEWYDD**

1.1 Yn ystod 2012/13, daeth i'n sylw fod gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig Ynys Môn a Gwynedd.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygio) 2010 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol, h.y. cyfrif incwm a gwariant, a lle mae'r trosiant yn fwy na £1m, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

1.6 Bydd y Datganiad o'r Cyfrifon yn destun archwiliad ar wahân gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 2. CYFRIFON 2012/13

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2012/13 yma fel Atodiad A(i)** ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol". Hefyd, cyflwynir cyfrifon cyffelyb am 2011/12, sy'n hwyluso cymariaethau (Atodiad A(ii)). Mae'r rhain i gyd ar ffurf adroddiad "alldro" syml. Cyflwynwyd yr adroddiad gwreiddiol ar gyfrifon terfynol 2011/2012 ynghyd â sylwadau am y prif wahaniaethau i gyfarfod y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig ar 16 Hydref 2012.

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Datganiad o'r Cyfrifon am 2012/13 (cyn archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol,** sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

2.3 Bydd rhain yn destun archwiliad buan gan Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn cynhyrchu adroddiad "ISA260" (yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru) i'w gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor ar 20 Medi 2013.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig dderbyn a nodi'r wybodaeth sy'n yr atodiadau,** sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2012/13 – Atodiad A(i)
- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2011/12 – Atodiad A(ii)
- Datganiad o'r Cyfrifon 2012/13 (cyn archwiliad) – Atodiad B

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

## CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2012/2013

| | CLIA strwythur staffio Ebrill 2012 | Cyllideb 2012/2013 £ | Cyfrifon Terfynol 2012/13 £ | Gwahaniaeth Gor/(Tan)wariant £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | | | | |
| Cyflogau | | | | |
| - Seicolegwyr | (8.1) | 511,670 | 454,857 | (56,813) |
| - Athrawon Cynhaliol | (7.6) | 377,350 | 357,910 | (19,440) |
| - Gweinyddol | (6.4) | 182,890 | 164,208 | (18,682) |
| - Cydlynnu 3* (cyllido o balansau) | | 0 | 13,055 | 13,055 |
| - Gwasanaeth CWNSELA | | 0 | 8,275 | 8,275 |
| Hyfforddiant | | 9,520 | 8,444 | (1,076) |
| Hysbysebu am Weithwyr | | 0 | 3,202 | 3,202 |
| Yswiriant Atebolrwydd | | 2,660 | 2,713 | 53 |
| Adeilad | | | | |
| Trethi | | 5,090 | 5,085 | (5) |
| Rhent a Gwasanaethau | | 10,770 | 10,873 | 103 |
| Cludiant | | | | |
| Costau Teithio | | 50,780 | 45,747 | (5,033) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa | | 17,480 | 10,449 | (7,031) |
| Ffôn | | 8,600 | 2,363 | (6,237) |
| Post | | 1,800 | 4,269 | 2,469 |
| Costau Canolog Ynys Môn | | 1,630 | 1,630 | 0 |
| Costau Canolog Gwynedd | | 4,810 | 4,810 | 0 |
| Ffi Archwilio (i gyd-fynd â'r cyfnod adrodd cyfredol) | | 0 | 8,300 | 8,300 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 1,185,050 | 1,106,190 | (78,860) |
| **Incwm** | | | | |
| Incwm Allanol | | (8,740) | (22,647) | (13,907) |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | | (721,900) | (721,900) | 0 |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | | (454,410) | (454,410) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | | (1,185,050) | (1,198,957) | (13,907) |
| **Cyfanswm Tanwariant Net** | | 0 | (92,767) | (92,767) |

| | £ |
|---|---|
| Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA 31/03/2012 | (72,295) |
| Ychwanegu tanwariant net 2012/13 | (92,767) |
| **Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA 31/03/2013** | **(165,062)** |

**Cyfrifon Terfynol 2012/2013 – Prif wahaniaethau**

- Mae'r cyfrifon terfynol yn dangos tanwariant net o (£92,767) am y flwyddyn 2012/2013, ac mae'r tabl isod yn crynhoi y prif wahaniaethau.

| Pennawd Gwariant | Gor / (Tan) Wariant Net | |
|---|---|---|
| **Gweithwyr** | **(£)** | **(£)** |
| Seicolegwyr (swyddi gwag) | (56,813) | |
| Athrawon Cynhaliol (trosiant staff) | (19,440) | |
| Staff Gweinyddol (swyddi gwag) | (18,682) | |
| Cyd-lynydd Cynllun 3* (wedi'i gynllunio trwy ddefnydd reserf) | 13,055 | |
| **Tanwariant - Gweithwyr** | | **(81,880)** |
| **Cludiant a Chyflenwadau** | | |
| Costau Teithio (swyddi gwag) | (5,033) | |
| Adnoddau / deunyddiau swyddfa | (7,031) | |
| Lleihad yn ad-daliad Costau Canolog | (6,237) | |
| Ffi Archwilio | 8,300 | |
| **Tanwariant – Cludiant a Chyflenwadau** | | **(10,001)** |
| **Tanwariant - Eraill** | | **(886)** |
| **Tanwariant Net 2012/13** | | **(92,767)** |

**Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA**

- Adroddwyd yng nghyfarfod Hydref 2012, bod disgwyl y byddai balans reserf y Cyd-Bwyllgor yn cynyddu i oddeutu £109,000 erbyn 31/03/2013 yn sgil trosiant staff a swyddi gwag.
- Rhagwelwyd ar y pryd y byddai'r swyddi yma yn cael eu llenwi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, ni welwyd hyn ac fe gynyddodd y lefel tanwariant perthnasol, ac o ganlyniad, roedd balans o £165,062 yn y reserf erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2012/13.

| Symudiad yn y reserf | Balans y reserf (£) | % o'r gyllideb |
|---|---|---|
| Balans Reserf Cydbwyllgor AAA 31 Mawrth 2012 | (72,295) | 5.9 |
| Tanwariant net 2012/2013 | (92,767) | |
| **Balans Reserf Cydbwyllgor AAA 31 Mawrth 2013** | **(165,062)** | **14.0** |

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

# (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

## CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2011/2012

| | CLIA strwythur staffio Ebrill 2011 | Cyllideb 2011/2012 £ | Cyfrifon Terfynol 2011/12 £ | Gwahaniaeth Gor/(Tan)wariant £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | | | | |
| Cyflogau | | | | |
| - Seicolegwyr | (8.7) | 529,950 | 512,648 | (17,302) |
| - Athrawon Cynhaliol | (7.8) | 395,170 | 377,857 | (17,313) |
| - Gweinyddol | (6.0) | 174,380 | 167,743 | (6,637) |
| - Cydlynnu 3* (cyllido o balansau) | | 0 | 14,891 | 14,891 |
| - Gwasanaeth CWNSELA | | 0 | 10,039 | 10,039 |
| Hyfforddiant | | 9,520 | 4,619 | (4,901) |
| Yswiriant Atebolrwydd | | 2,600 | 2,540 | (60) |
| Costau Di-swyddo | | 0 | 10,334 | 10,334 |
| Adeilad | | | | |
| Trethi | | 4,820 | 4,815 | (5) |
| Rhent a Gwasanaethau | | 10,770 | 12,340 | 1,570 |
| Cludiant | | | | |
| Costau Teithio | | 54,160 | 53,738 | (422) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa | | 17,480 | 14,901 | (2,579) |
| Ffôn | | 8,600 | 8,600 | 0 |
| Post | | 1,800 | 3,944 | 2,144 |
| Costau Canolog Ynys Môn | | 1,630 | 1,630 | 0 |
| Costau Canolog Gwynedd | | 4,850 | 5,150 | 300 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 1,215,730 | 1,205,789 | (9,941) |
| **Incwm** | | | | |
| | | | | (27,539) |

# SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS JOINT COMMITTEE

# (GWYNEDD AND ANGLESEY COUNCILS)

## REVENUE INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT 2011/2012

| | FTE staffing structure April 2011 | Budget 2011/2012 £ | Final Accounts 2011/12 £ | Variance Over/(Under)spend £ |
|---|---|---|---|---|
| **Expenditure** | | | | |
| Employees | | | | |
| Salaries | | | | |
| - Psychologists | (8.7) | 529,950 | 512,648 | (17,302) |
| - Support Teachers | (7.8) | 395,170 | 377,857 | (17,313) |
| - Administration | (6.0) | 174,380 | 167,743 | (6,637) |
| - 3* Co-ordinator (to fund from balances) | | 0 | 14,891 | 14,891 |
| - Supporting the Counselling Service | | 0 | 10,039 | 10,039 |
| Training | | 9,520 | 4,619 | (4,901) |
| Liability Insurance | | 2,600 | 2,540 | (60) |
| Termination Costs | | 0 | 10,334 | 10,334 |
| Building | | | | |
| Rates | | 4,820 | 4,815 | (5) |
| Rent and Services | | 10,770 | 12,340 | 1,570 |
| Transport | | | | |
| Travelling Expenses | | 54,160 | 53,738 | (422) |
| Supplies and Services | | | | |
| Resources / Office Supplies | | 17,480 | 14,901 | (2,579) |
| Telephone | | 8,600 | 8,600 | 0 |
| Post | | 1,800 | 3,944 | 2,144 |
| Central Charges Anglesey | | 1,630 | 1,630 | 0 |
| Central Charges Gwynedd | | 4,850 | 5,150 | 300 |
| **Total Expenditure** | | 1,215,730 | 1,205,789 | (9,941) |
| **Income** | | | | |
| External Income | | (8,430) | (35,969) | (27,539) |

# Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
## (Cynghorau Gwynedd a Môn)

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2012/13

## YN AMODOL AR ARCHWILIAD

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.gov.uk

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagymadrodd Eglurhaol | 2 - 3 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 4 |
| Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau | 5 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 6 |
| Y Fantolen | 7 |
| Datganiad Llif Arian | 8 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 9 - 15 |

Atodiad B

# RHAGYMADRODD EGLURHAOL

## Rhagarweiniad

Mae'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'n gyfrifol am gyflawni gwaith statudol yn y maes Anghenion Addysgol Arbennig ar ran ysgolion a swyddogion cleient y ddau Awdurdod Lleol. Yn ogystal â hyn lleolir Gwasanaeth Seicolegol Addysgol a Tîm Athrawon Arbenigol y ddau Awdurdod Lleol yn y Cyd-Bwyllgor AAA. Maent yn cynghori ysgolion a chefnogi disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig golwg, clyw, awtistiaeth, anhwylderau cyfathrebu, iaith ac anghenion corfforol neu feddygol.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig am 2012/13 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 5 i 15. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2012/13*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau -** Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr -** Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng Cyngor Gwynedd (61.4%) a Chyngor Sir Ynys Môn (38.6%).

- **Y Fantolen** - sydd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2013.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2012/13 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Rhagymadrodd yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon. Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd gan y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u egluro yn llawn yn y Polisïau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon ar dudalen 9.

## GWYBODAETH BELLACH

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.gov.uk.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

William E Jones
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679406

neu

Caren Rees Jones / Sian Pugh
Uned Cyfrifeg Canolog, Adran Cyllid
01286 679134

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## DATGANIAD O'R CYFRIFON

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

**CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR**

Cyngor Gwynedd sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor a'r Swyddog Cyllid cyfrifol yw'r Pennaeth Cyllid.

Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

---

**CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD**

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd Ymarfer.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol ac fe gymerwyd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

---

**TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL**

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig ar 31 Mawrth 2013 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**27 Mehefin 2013**

**Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi'n 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Gwarged neu (Ddiffyg) ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd yn dangos balans statudol y Gronfa Gyffredinol cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o reserfau a glustnodwyd a gyflawnir gan y Cyd-Bwyllgor.

| | **Nodyn** | Balans Cronfa Gyffredinol | Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd | Reserf Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 1 Ebrill 2011** | | **0** | **(55)** | **0** | **0** | **(55)** | **0** | **(55)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2011/12 | | | | | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | (17) | 0 | 0 | 0 | **(17)** | **0** | **(17)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | (17) | 0 | 0 | 0 | **(17)** | **0** | **(17)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | | (17) | 0 | 0 | 0 | **(17)** | **0** | **(17)** |
| Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd | 2 | 17 | (17) | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2011/12** | | 0 | (17) | 0 | 0 | **(17)** | **0** | **(17)** |
| **Balans 31 Mawrth 2012 a ddygwyd ymlaen** | | **0** | **(72)** | **0** | **0** | **(72)** | **0** | **(72)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2012/13 | | | | | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | (93) | 0 | 0 | 0 | **(93)** | **0** | **(93)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | (93) | 0 | 0 | 0 | **(93)** | **0** | **(93)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | | (93) | 0 | 0 | 0 | **(93)** | **0** | **(93)** |
| Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd | 2 | 93 | (93) | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2012/13** | | 0 | (93) | 0 | 0 | **(93)** | **0** | **(93)** |
| **Balans 31 Mawrth 2013 a ddygwyd ymlaen** | | 0 | (165) | 0 | 0 | **(165)** | **0** | **(165)** |

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR – 2012/13

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu'r gwasanaeth anghenion addysgol arbennig yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

| 2011-12 | | | | 2012-13 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| 1,101 | 0 | 1,101 | Gweithwyr | 1,012 | 0 | 1,012 |
| 17 | 0 | 17 | Eiddo | 16 | 0 | 16 |
| 54 | 0 | 54 | Cludiant | 46 | 0 | 46 |
| 34 | 0 | 34 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | 32 | 0 | 32 |
| 0 | (1,223) | (1,223) | Incwm | 0 | (1,199) | (1,199) |
| **1,206** | **(1,223)** | **(17)** | **Cost Gwasanaethau** | **1,106** | **(1,199)** | **(93)** |
| 0 | 0 | 0 | Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 |
| **1,206** | **(1,223)** | **(17)** | **(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **1,106** | **(1,199)** | **(93)** |

# Y FANTOLEN – 31 MAWRTH 2013

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor.

| 1 Ebrill 2011 £'000 | 31 Mawrth 2012 £'000 | | Nodyn | 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **0** | **0** | **Asedau Tymor Hir** | | **0** |
| 97 | 94 | Dyledwyr Tymor Byr | *3* | 189 |
| **97** | **94** | **Asedau Cyfredol** | | **189** |
| (42) | (22) | Credydwyr Tymor Byr | *4* | (24) |
| **(42)** | **(22)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(24)** |
| **0** | **0** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **0** |
| **55** | **72** | **Asedau Net** | | **165** |
| (55) | (72) | Reserfau Defnyddiadwy | | (165) |
| 0 | 0 | Reserfau na ellir eu defnyddio | | 0 |
| **(55)** | **(72)** | **Cyfanswm Reserfau** | | **(165)** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN – 2012/13

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd.

| 2011-12 £'000 | | 2012-13 £'000 |
|---|---|---|
| 0 | (Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | 0 |
| 0 | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | 0 |
| 0 | Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu | 0 |
| 0 | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | 0 |
| 0 | Gweithgareddau Buddsoddi | 0 |
| 0 | Gweithgareddau Ariannu | 0 |
| 0 | Cynnydd net mewn arian a chywerthoedd arian | 0 |
| 0 | Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 0 |
| **0** | **Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | **0** |

** Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Mae unrhyw arian parod dyledus i'r Cyd-Bwyllgor yn gynwysedig yn y ffigwr dyledwyr tymor byr.*

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2012/13 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2013. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012/13* a'r Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2012/13, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2005.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisïau perthnasol yn unig.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn cymryd lle, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a pan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd refeniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen pan fod balansau o'r fath yn cael eu cysidro yn faterol berthnasol.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pryd fydd taliadau wedi eu gwneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif refeniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

### 1.4 Asedau Dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan mae digwyddiad ble mae posibilrwydd caiff y Cyd-Bwyllgor ased ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyd-Bwyllgor.

Nid yw asedau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon os yw'n debygol bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth. Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor asedau dibynnol.

### 1.5 Ymrwymiadau Dibynnol

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fod digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyd-Bwyllgor ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyd-Bwyllgor. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan bod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw ymrwymiadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon.

## 1.6 Buddiannau Gweithwyr

### 1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Oherwydd materoliaeth, nid yw cyfrifon y Cyd-Bwyllgor yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cost hawl gwyliau, ond mae wedi ei gynnwys fel rhan o gyfrifon yr awdurdod lletyol.

### 1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae'r rhain yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn tâl diswyddo gwirfoddol. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys y costau, ond cyfrifir y trafodion perthnasol eraill o fewn cyfrifon yr awdurdod lletyol.

### 1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar rhan Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

### 1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y Gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun. Gweler paragraff 1.13 isod am fwy o fanylion.

### 1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 1.7 Digwyddiadau Ôl-Fantolen

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ag anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd â amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.8 Eitemau Eithriadol ac Addasiadau Cyfnod Blaenorol

Pan fo eitemau o incwm a gwariant yn faterol, yna caiff eu natur a'u gwerth eu datgelu ar wahân, unai ar wyneb y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn ddibynnol ar pha mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddealltwriaeth o berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Gall yr angen i wneud addasiadau blwyddyn blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad blwyddyn blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu bod y newid yn darparu gwybodaeth mwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.9 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

### 1.10 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

### 1.11 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy'. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestriad TAW Cyngor Gwynedd.

### 1.12 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifwaith. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm yn berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, p'run a'u os yw'r taliadau a'r derbyniadau wedi eu talu neu eu derbyn a'i peidio yn y flwyddyn.

### 1.13 Pensiynau

Mae'r Safon Adrodd Rhyngwladol (IAS) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor yn cynnwys y taliadau a wnaethpwyd tuag at bensiynau'r swyddogion yn ystod y flwyddyn. Nid yw'n ymarferol bosib i adnabod yr asedau a'r ymrwymiadau sy'n berthnasol i swyddogion y Cyd-Bwyllgor, ac felly nid oes ymrwymiad yn y fantolen ar gyfer taliadau buddion a wneir yn y dyfodol. Mae'r asedau a'r ymrwymiadau sy'n berthnasol i'r Cyd-Bwyllgor wedi eu cynnwys yng nghyfrifon yr Awdurdod Arweiniol.

### 1.14 Gweithrediadau wedi eu Cyd-reoli

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gweithgareddau sy'n cael eu ymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

Mae'r Cyd-Bwyllgor AAA wedi ei gategoreiddio fel Gweithred sydd wedi ei Gyd-reoli.

## NODYN 2 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol.

**Reserfau a Glustnodwyd**

| | **Reserf Cyd-Bwyllgor AAA £'000** |
|---|---|
| **Balans 1 Ebrill 2011** | **55** |
| Trosglwyddiadau: | |
| Rhwng Cronfeydd | 0 |
| Mewn | 17 |
| Allan | 0 |
| **Balans 31 Mawrth 2012** | **72** |
| Trosglwyddiadau: | |
| Rhwng Cronfeydd | 0 |
| Mewn | 93 |
| Allan | 0 |
| **Balans 31 Mawrth 2013** | **165** |

## NODYN 3 – DYLEDWYR TYMOR BYR

| | **1 Ebrill 2011 £'000** | **31 Mawrth 2012 £'000** | **31 Mawrth 2013 £'000** |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol Eraill | 97 | 94 | 188 |
| Endidau Eraill ac Unigolion | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **97** | **94** | **189** |

## NODYN 4 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | **1 Ebrill 2011 £'000** | **31 Mawrth 2012 £'000** | **31 Mawrth 2013 £'000** |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol Eraill | 0 | 1 | 0 |
| Corfforaethau a Masnachu Cyhoeddus | 0 | 0 | 8 |
| Endidau Eraill ac Unigolion | 42 | 21 | 16 |
| **Cyfanswm** | **42** | **22** | **24** |

## NODYN 5 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

| 2011-12 £'000 | | 2012-13 £'000 |
|---|---|---|
| 0 | Ffioedd ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Allanol * | 8 |

* Fel rhan o'r gofynion archwilio eleni, bydd angen archwilio dwy flynedd ariannol.

## NODYN 6 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor.

### Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2013 wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2012/13 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|
| £1,128 | £0 | £0 |

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar ddychweliadau a dderbyniwyd gan Gynghorwyr.

## NODYN 7 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu'r gost berthnasol i'r cyflogwr yn hytrach na gwir gost y taliadau i'r unigolion:

| (a) | (b) | | (c) | | (d) | | (e) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)** | **Nifer diswyddiadau gorfodol** | | **Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill** | | **Nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost** | | **Cyfanswm cost y pecynnau terfynu gwaith ymhob band** | |
| | **2011/12** | **2012/13** | **2011/12** | **2012/13** | **2011/12** | **2012/13** | **2011/12** | **2012/13** |
| **£** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **£'000** | **£'000** |
| **0 - 20,000** | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | **10** | **0** |
| **20,001 - 40,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| **40,001 - 60,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| **60,001 - 80,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| **80,001 - 100,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| **100,001 - 150,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **1** | **0** | **0** | **0** | **1** | **0** | **10** | **0** |

## NODYN 8 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Mewn egwyddor cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan y cydbwyllgorau ac awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor yn gallu adnabod ei rhan o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2012/13 talodd y Cyd-Bwyllgor £41,177 (£42,792 yn 2011/12) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 14.08% (13.91% yn 2011/12) o dâl pensiynadwy athrawon.

## NODYN 9 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ar ôl cyflogaeth.

Yn 2012/13 talodd y Cyd-Bwyllgor £99,943 (£116,637 yn 2011/12) am gost pensiwn swyddogion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol sy'n 21.9% o dal pensiynadwy pob swyddog yn y Cynllun (21.4% yn 2011/12).

Mae'r trafodion ariannol perthnasol pellach sy'n gysylltiedig â'r Cyd-Bwyllgor wedi eu cynnwys o fewn cyfrifon Cyngor Gwynedd, gyda dim effaith net ar Treth y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 5ed Gorffennaf 2013 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| **GWEITHREDU**: | Derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol |

**CEFNDIR**:

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 yn mynnu fod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Yn unol â Rhan 4 o'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005, mae angen cynhyrchu Datganiad o Reolaeth Mewnol ac i'r pwrpas yma fe ddarparwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Darparwyd datganiad drafft gan Adran Gyllid Cyngor Gwynedd (gan mai Gwynedd sy'n darparu cefnogaeth ariannol i'r Cyd-Bwyllgor) ac fe gadarnhawyd y ddogfen gan Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ynys Môn.

Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y datganiad a bwriedir ei gyfuno gyda chyfrifon y Cyd-Bwyllgor i ffurfio un ddogfen gyfansawdd i'w chyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor am gymeradwyaeth ddiwedd mis Medi, 2013.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

### Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig gan Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn yn 1996 at ddiben darparu gwasanaeth anghenion addysg arbennig drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau.

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

### Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu berthnasol wedi bod yn ei le ar gyfer y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2013 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

**Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

**3.1 Aelodaeth**

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig wedi ei sefydlu yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 o dan adran 101, adran 102(1) (b) (hawl i ddau neu ragor o awdurdodau benodi cyd bwyllgor), adran 103 (gwariant Cyd-bwyllgor i'w rannu rhwng yr awdurdodau), adran 104 (rheolau arferol awdurdodau lleol ar gyfer gwahardd aelod rhag bod yn aelod pwyllgor ar y cyd) ac adran 105 (gwahardd pleidleislo oherwydd buddiant mewn contractau ayb).

Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys 7 aelod o Gyngor Gwynedd a 7 aelod o Gyngor Sir Ynys Môn. Penodir yr aelodau gan yr Awdurdod yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwnnw. Yn ychwanegol mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys 1 aelod a enwebir gan Fwrdd Cyllidol Esgobaethol Bangor sydd â'r hawl i bleidleisio, 1 aelod a enwebir gan yr Eglwys Babyddol sydd â'r hawl i bleidleisio, ac un aelod a enwebir gan yr eglwysi rhyddion nad oes gan yr hawl i bleidleisio.

Mae tymor aelodaeth, yn ogystal â threfniadau penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, wedi eu diffinio o fewn y Cyfansoddiad.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn drefniant parhaol, ac yn unol â'r Cyfansoddiad rhaid i'r naill awdurdod neu'r llall rhoi rhybudd o flwyddyn yn diweddu ar derfyn blwyddyn gyllidol os am dynnu allan o'r trefniant.

**3.2 Swyddogaethau**

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn cyflawni'r canlynol ar ran Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn:

- Darparu gwasanaeth anghenion addysg arbennig drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau.

**3.3 Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau**

Mae Cyfansoddiad yn ei le ar gyfer y Cyd-bwyllgor, yn ddyddiedig 30 Ionawr 2004. Mae'r Cyfansoddiad yn amlinellu'r rolau canlynol

- Bydd holl weithgaredd y Cyd-bwyllgor yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyngor Sir Ynys Môn.
- Darperir cyfleusterau gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cyd-bwyllgor gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.
- Cyflogir staff ar y cyd gan y ddau Awdurdod at ddibenion cyflawni'r swyddogaethau a ddirprwyir i'r Cyd-bwyllgor. Cyflogir staff yn unol ag amodau gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd ag unrhyw amodau ychwanegol a osodir gan y Cyd-bwyllgor. Mae'r Cyfansoddiad yn diffinio hawliau gweithredu'r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â materion cyflogaeth staff.
- Darperir gwasanaeth personél i'r Cyd-bwyllgor gan Cyngor Sir Ynys Môn a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.
- Bydd rheolau cyllidol Cyngor Gwynedd yn berthnasol i holl weithgaredd cyllidol y Cyd-bwyllgor. Rhaid i'r Cyd-bwyllgor adrodd yn flynyddol i'r ddau awdurdod ar ei sefyllfa gyllidol.
- Darperir yr holl wasanaethau cyllidol i'r Cyd-bwyllgor gan Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.
- Mae gan y Cyd-bwyllgor yr hawl i sefydlu un is-banel neu fwy ac i ddirprwyo rhai o'i swyddogaethau i'r Is-banel(au) ar yr amod nad yw'r dirprwyo hynny yn rhwystro gallu'r Cyd-bwyllgor ei hun i weithredu'r swyddogaethau hynny.

**Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, unrhyw sylw yn adroddiad blynyddol pennaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

- Yn unol â Chyfansoddiad y Cyd-bwyllgor, mae ei holl weithgareddau yn unol â Rheolau Sefydlog Cyngor Sir Ynys Môn. O ganlyniad, felly, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côd Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen lywodraethu'r Cyd-bwyllgor hefyd.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**.

**Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Nid yw'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig o'r farn fod unrhyw faterion o'r fath wedi codi yn ystod asesiad o'i drefniadau llywodraethu sydd yn gwarantu sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma.

**Rhan 6: BARN**

Rydym yn bwriadau cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| **xxxxxxxxxxxxxxx** | **Cyng. XXXXX** |
| **[SWYDDOG ARWEINIOL]** | **[AELOD ARWEINIOL]** |
| **DYDDIAD** | **DYDDIAD** |